



Bwletin GwE



#Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Neges gan GwE



Ar ddechrau tymor newydd gobeithio eich bod chi, eich staff a'ch disgyblion yn dechrau setlo i fywyd arferol ysgol. Gobeithio y cawn dymor gweddol dawel oddi wrth y pandemig ac y bydd yn gyfnod di-dor er mwyn i chi allu parhau gyda'r dysgu a'r addysgu. Wythnos nesaf, hoffwn rannu cyfeiriad cefnogaeth GwE hefo chi. Bydd yn gyfle i mi esbonio ein bwriadau hyd at hanner tymor ac am weddill y flwyddyn wrth i ni gydweithio i roi ein hegni tu ôl i'r daith ddiwygio.

Er mwyn cyflwyno'r trosolwg i chi, mae cyfarfod Zoom wedi'i drefnu ar gyfer yr amseroedd canlynol (bydd cyfeiriad Zoom yn cael ei anfon i'ch e-bost ysgol):

Uwchradd, UCD ac Arbennig

- Dydd Mercher, Medi 15fed 1:00-1:50yh - Cyfrwng Saesneg
- Dydd Mercher, Medi 15fed 3:00-3:50yh - Cyfrwng Cymraeg (gyda chyfieithu i'r Saesneg ar gael)

Cynradd, UCD ac Arbennig

- Dydd Mercher, Medi 15fed 2:00-2:50yh – Cyfrwng Saesneg
- Dydd Mercher, Medi 15fed 4:00-4:50yh – Cyfrwng Cymraeg (gyda chyfieithu i'r Saesneg ar gael)

Bydd y cyflwyniadau'n cael eu recordio a'u rhannu gyda phob ysgol.

Bydd yna gyfle i drafod y materion dan sylw yn eich fforymau penaethiaid lleol a gyda'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt yn eich clystyrau a'ch ysgolion unigol.


Edrychaf ymlaen yn eiddgar i'ch croesawu ac i rannu ein gweledigaeth hefo chi.

Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr.

Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Swyddog Prosiect - Ein Llais Ni

SWYDD DROS-DRO HYD AT HYDREF 2022

Rydym yn awyddus i benodi person brwdfrydig i ymuno â chynllun cwbl unigryw i hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yng Ngogledd Cymru. Bydd y cynllun yn gyfle i aildanio a gwreiddio sgiliau gwranddo a siarad wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru gan ystyried strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhyngwladol. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i ysgolion gydweithio fel tîm ymchwil gweithredol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor a GwE; gyda'r gwaith wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru.

DYDDIAD CAU: 10.00AM, DYDD IAU, 16 MEDI 2021

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Eleri Owen, Rheolwr Prosiect (elerillewelynnowen@GwEGogledd.Cymru).

Am ragor o fanylion a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679076.

Rheolwr Adnoddau GwE (Ail Hysbyseb)

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain y gwaith o sicrhau bod gan GwE gyfundrefnau a systemau priodol ar gyfer cyflawni rheolaeth ariannol effeithiol. Bydd y Rheolwr Adnoddau yn gyfrifol am gynllunio a rheoli adnoddau'r gwasanaeth gan weithredu newidiadau a rheoli gweithgareddau. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys sicrhau yr ymlynir wrth holl reoliadau ariannol a chaffael, a bod prosesau busnes y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn er sicrhau adrodd am wybodaeth reoli ystyrlon oddi mewn i GwE.

Bydd hefyd yn cynghori'r Uwch Dîm Arwain ynghylch materion sy'n ymwneud â chyllid, eiddo, materion staff, iechyd a diogelwch, gan ddarparu cyswllt ag Adnoddau Dynol.

Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

DYDDIAD CAU: 10.00AM, DYDD IAU, 16 MEDI 2021

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch ag Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, ar 03005008087 neu e-bost ArwynThomas@GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais ewch i www.gwynedd.gov.uk neu cysylltwch â 01286 679076.

Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant: Uwchradd

Cyfle am swydd barhaol neu secondiad.

Secondiad ar delerau ac amodau presennol – rhaid i'r Corff Llywodraethu gytuno cyn i chi ymgeisio.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn tîm i gefnogi ysgolion ar draws y continwrm 3 i 16. Bydd yn gweithio gydag ysgolion i gefnogi pob agwedd ar wella ysgolion gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiol randdeiliaid.

DYDDIAD CAU: 10.00AM, DYDD IAU, 30 MEDI 2021

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag Elfyn Vaughan Jones, Uwch Arweinydd: Uwchradd (07557759240 / elfynjones@GwEGogledd.Cymru).

Am ragor o fanylion a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679076.

Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant: Saesneg a Llythrennedd Uwchradd

Cyfle am swydd barhaol neu secondiad.

Secondiad ar delerau ac amodau presennol – rhaid i'r Corff Llywodraethu gytuno cyn i chi ymgeisio.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn tîm i gefnogi ysgolion ar draws y continwrm 3 i 16. Bydd yn gweithio gydag ysgolion i gefnogi pob agwedd ar wella ysgolion gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiol randdeiliaid.

DYDDIAD CAU: 10.00AM, DYDD IAU, 30 MEDI 2021

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag Elfyn Vaughan Jones, Uwch Arweinydd: Uwchradd (07557759240 / elfynjones@GwEGogledd.Cymru).

Am ragor o fanylion a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679076.

Rhaglenni Cenedlaethol

Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Pennwyd dyddiadau ym mis Medi a Hydref ar gyfer sesiynau briffio cenedlaethol Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG), Mentoriaid Sefydlu ANG a Gwirwyr Allanol ANG 2021-22. Cliciwch [yma](#) am wybodaeth bellach am sut i ymuno â'r sesiynau, yn ogystal â'r holl ddyddiadau.

Cyfle ym Maes Cymell i Fentoriaid Sefydlu ANG (MS)

Rydym yn cynnig cyfle cyffrous i fentoriaid sefydlu gymryd rhan mewn hyfforddiant cymell i'w cynorthwyo gyda'u rôl o gefnogi athrawon newydd gymhwyso.

Gwahoddir mentoriaid sefydlu profiadol gyda chyfrifoldebau arweinyddiaeth ysgol i ymgeisio am **le wedi'i gyllido ar y Rhaglen Genedlaethol Cymell ar gyfer Mentoriaid Sefydlu (MS), a gymeradwywyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL).**

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth am y Rhaglen a sut i wneud cais.

Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

Cynhelir sesiynau briffio trwy Teams ar gyfer y **Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP** ar 13/09/21 am 15:30 (cyfrwng Cymraeg) ac ar 14/09/21 am 15:30 (cyfrwng Saesneg). Cynghorir darpar ymgeiswyr yn gryf i fynychu un o'r sesiynau hyn cyn ymgeisio.

Os dymunwch fynychu sesiwn briffio, cwblhewch y ffurflen gofrestru hon os gwelwch yn dda fel y gallwn anfon y ddolen Teams atoch: <https://forms.office.com/r/VPCTuMeBWG>

Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid – paratoi ar gyfer CPCP	
Sesiynau briffio ar gyfer darpar ymgeiswyr	13/09/21 am 15:30 (cyfrwng Cymraeg) 14/09/21 am 15:30 (cyfrwng Saesneg)
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 22/10/21
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Ceisiadau ar gyfer Asesiad CPCP	Tachwedd 2022
Canolfan Asesu CPCP	Chwefror 2023

Gweler isod amserlenni ar gyfer y Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Ganol ac Uwch Arweinwyr:

Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol	
Ceisiadau yn agor	14/09/21
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 07/10/21
Sesiwn rhagarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 29/11/21
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2022

Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr	
Ceisiadau yn agor	21/09/21
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais	erbyn 1yp ar 14/10/21
Sesiwn rhagarweiniol ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus	w/c 29/11/21
Rhaglen yn cychwyn	Ionawr 2022
Rhaglen yn gorffen	Rhagfyr 2022

Cyfle cyffrous i Gynorthwyywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Newyddion a Gwybodaeth GwE

Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol 2021/22

Mae'r Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol ar gyfer 2021/22 bellach ar gael i ysgolion.

Dilynwch y [canllawiau sydd ynghlwm](#) i fynd at y dangosfwrdd.

Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys y 3 prif grant rhanbarthol:

- Grant Gwella Addysg
- Grant Datblygu Disgyblion
- Grant Dysgu Proffesiynol

Mae'r adran ganllawiau wrthi'n cael ei diweddaru a bydd ar gael cyn gynted ag y bo modd.

Os cewch unrhyw broblem, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant neu anfonwch e-bost i grantiau@GwEGogledd.Cymru



Dwy sesiwn wyll gyda Shirley Clarke - dyddiadau i'w nodi

Rydym yn falch iawn o groesawu Shirley Clarke yn ôl atom i Ogledd Cymru i'n diweddaru a'n cynorthwyo gyda'n gwaith o ddatblygu ac esblygu asesu ffurfiannol yn ein hysgolion fel rhan o'n paratodau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bydd yn cynnal dwy sesiwn wyll cyn hanner tymor sy'n agored i holl ysgolion y rhanbarth.

28 Medi 2021 3:45 – 5:15 'Asesu Ffurfiannol 2021'

12 Hydref 2021 3:45 – 5:15 'Adborth'

Cadwch le drwy gofrestru ar G6 os gwelwch yn dda.



Asesiad Gwaelodlin 2021

Bu i'r Gweinidog Addysg gyhoeddi mewn datganiad llafar ar 6 Gorffennaf ei bod hi'n ofynnol eleni i ysgolion cynradd gynnal asesiadau gwaelodlin ar ddisgyblion y dosbarth derbyn o fewn y 6 wythnos gyntaf yn Nhyrnor yr Hydref (gweler y datganiad [yma](#)).

Mae cyflwyniad gan dîm Cyfnod Sylfaen GwE sy'n cynnig arweiniad ynglŷn â sut i asesu disgyblion yn erbyn y proffil cryno o fewn yr adran 'Cyfnod Sylfaen' yng Nghanolfan Gefnogaeth GwE. Fe all y cyflwyniad yma fod yn ddefnyddiol i athrawon sy'n newydd i'r Cyfnod Sylfaen neu'r rhai hynny sy'n gweinyddu'r asesiadau am y tro cyntaf.

<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/>

Os oes gan athrawon unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r asesiadau, mae croeso iddynt gysylltu drwy e-bost i dderbyn arweiniad gan:

AnnaHughes@gwegogledd.cymru

GwawrEleriThomas@gwegogledd.cymru

JoanneDavies@gwegogledd.cymru

Er nad yw'n ofynnol i ysgolion weithredu'r asesiad gwaelodlin â disgyblion meithrin, mae GwE o'r farn fod hyn yn arfer dda er mwyn adnabod gwaelodlin plentyn ar fynediad i'r ysgol.



'Ein Llais Ni'

PROSIECT LLAFAREDD ARLOESOL YN Y GYMRAEG YNG NGOGLEDD CYMRU 2021-22

Rydym yn awyddus i wahodd ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion i ymuno â chyfle unigryw i ddatblygu a mireinio ymarfer er mwyn hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yma yng Ngogledd Cymru. Bydd yn gyfle i ail-danio a gwreiddio sgiliau gwrando a siarad wrth gynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn y Cwricwlwm i Gymru gan ystyried strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhyngwladol. Bydd cefnogaeth ar bob cam o'r daith wrth roi'r strategaethau ar waith a hynny dan arweiniad arbenigwr rhyngwladol ar hyrwyddo sgiliau llafaredd a strategaethau addysgu dwyieithog, sef Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor.

Ceir rhagor o fanylion [yma](#) neu gwyliwch y [fideo yma](#).

Sut mae gwneud cais i fod yn rhan o'r prosiect hwn ac o dîm ymchwil gweithredol 'Ein Llais Ni'?

Llenwch [ffurflen gais](#) yn mynegi diddordeb erbyn **Dydd Llun, 27ain Medi 2021**.

Cysylltwch drwy EinLlaisNi@gwegogledd.cymru os am dderbyn mwy o wybodaeth neu sgwrs ynglŷn â'r prosiect.



Dyfodol Byd-Eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol



Canolfan Cefnogaeth GwE: [Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau.

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/>

Saesneg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/?lang=en>

CYFLEOEDD HYFFORDDI AR GYFER ATHRAWON YSGOLION CYNRADD

Cyfle am gyllid ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol

Mae tîm Dyfodol Byd-eang GwE yn chwilio am ysgolion cynradd sydd am ddatblygu eu darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym ni'n cynnig cyfle i nifer o ysgolion yng Ngogledd Cymru gael tanysgrifiad i adnoddau Power Language Schools. Ariennir y tanysgrifiad hwn yn llawn.

Os oes gennych chi ddiddordeb ac yr hoffech wneud cais am y tanysgrifiad blwyddyn hwn a ariennir yn llawn, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Prifysgol Agored- 2021-2022

Rydym yn ffodus dros ben i fod mewn sefyllfa i gynnig **cyfle i athrawon cynradd ddysgu iaith ryngwladol, a chael hyfforddiant i gyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd** drwy'r Brifysgol Agored.

Ariennir y cwrs yn llawn.

Os oes gennych chi, neu un o'ch cydweithwyr yn yr ysgol, ddiddordeb mewn cofrestru ar y cwrs, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru



TEDx GwE

Pleser o'r mwyaf yw eich gwahodd i fod yn rhan o'n digwyddiad TEDxGWE ar gyfer TED COUNTDOWN mewn partneriaeth efo Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru, Adfywio Cymru a phartneriaid strategol eraill.

Mae TEDx yn ddigwyddiad i siaradwyr gyflwyno syniadau mawr y mae ganddynt wybodaeth helaeth amdanynt. Y gwahaniaeth gyda'n digwyddiad ni yw mai ein pobl ifanc fydd y siaradwyr. Ein nod yw dod â disgyblion o bob oed at ei gilydd i siarad am yr Argyfwng Hinsawdd a chreu syniadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Ein gobaith yw arddangos syniadau pobl ifanc o bob cwr o'r rhanbarth, gan siarad am brosiectau newydd ac arloesol y maent wedi meddwl amdanynt i helpu i ymladd yn erbyn yr argyfwng. Gobeithio bydd y llwyfan hwn yn help iddynt gael eu clywed, ac yn gwneud i arweinwyr y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat ddefro a chymryd sylw. Credwn fod gan ein pobl ifanc y potensial i ysbrydoli eraill ac i brocio trafodaethau sydd o bwys. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gael deddfwriaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy gyda Deddf arloesol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym am ddatblygu hyn a'r cyfle i wneud gwahaniaeth cadarnhaol a hirdymor i genedlaethau heddiw a fory, gyda phobl ifanc wrth wraidd gyrru'r newidiadau hyn.

Os hoffech fod yn rhan o hyn yna mae angen i chi wneud dau beth:

1. [Dilyn y ddolen](#) i gofrestru diddordeb. Fe fyddwn ni wedyn yn anfon atoch ddolen i becyn syniadau.
2. Anfon fideo 60 eiliad o ddisgyblion ar Flipgrid (bydd y ddolen ar gael gyda'r pecyn adnoddau) sy'n cyfleu eich syniad, eich materion neu eich ffocws a'r hyn rydych am i arweinwyr, cymunedau a'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau yng Ngogledd Cymru ei wneud. Gall hyn fod yn grwpiau ac yn unigolion o unrhyw oedran.

Cesglir yr holl fideos a bydd arweinwyr ar hyd a lled Gogledd Cymru yn eu gwyllo.

Cynhelir digwyddiad TEDx, fydd yn cael ei fflmio, ar 1 Tachwedd yn Theatr Clwyd er mwyn i nifer o bobl ifanc gael cynulleidfya fyw a llwyfan i rannu eu barn. Byddwn yn rhoi cefnogaeth i ddatblygu'r sgwrs TED a pheth hyfforddiant a chefnogaeth gyda siarad cyhoeddus.



Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol



Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16 2021-2022

Mae ein Rhaglen Datblygu Dysgu Ôl-16 yn cynnig cyfle i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i wynebu heriau arweinyddiaeth ôl-16. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Rhaglen Bartneriaeth Lles ac Iechyd Meddwl Mind Cymru

Ar y cyd â Mind Cymru, bydd y pedwar consortiwm addysg rhanbarthol yn hwyluso cyfle i ddysgu'n broffesiynol (yn rhithiol, yn y Gymraeg a'r Saesneg) o fis Medi 2021:

Sesiwn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - targedir pob clwstwr ar draws y rhanbarth

Sesiwn 3 awr i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl. Cyflwynir i grwpiau o 16 aelod a rhoddir pecyn i'r aelodau fynd o'r sesiwn efo nhw. Rydym yn targedu un neu ddau unigolyn o bob clwstwr ar draws y rhanbarth. Mae'r sesiwn yn addas i holl staff y clwstwr. Er hynny, byddai'r aelodau yn dod yn Bencampwyr y Rhaglen Bartneriaeth Les, yn cyfarfod â'r Tîm Lles ddwywaith y flwyddyn ac yn gyfrwng i ddatblygu'r rhaglen, adnoddau cyfathrebu a ffynonellau cymorth i'w rhannu yn eu clwstwr eu hunain.

Mind - Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gwaith a Chefnogi Staff

Sesiwn 3 awr, wedi'i hwyluso, a bydd pecyn ar gael i'w roi i ddysgwyr. Cyflwynir i grwpiau o 16 aelod, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r sesiwn rhithiol hwn yn targedu **Aelodau Uwch Dimau Arwain Ysgolion/Lleoliadau a'r ALL**. Byddai'r rhaglen hon yn cael ei harfarnu ac yn cael ei chynnal i fwy o aelodau, yn dibynnu ar y sylwadau cychwynnol.

Ceir rhagor o fanylion am y 2 sesiwn [yma](#).

Gwybodaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru

Rhaglen Meistr mewn Addysg Newydd

[Cliciwch yma](#) am y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Meistr mewn Addysg newydd sy'n dechrau ym mis Medi 2021.

Ymgyrch Recriwtio Athrawon

Disodlwyd gwefan 'Addysgu Cymru' gan 'Addysgwyr Cymru'. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch i hyrwyddo addysgu fel gyrfa i gynorthwyr dysgu, newidwyr gyrfa, graddedigion, myfyrwyr a rhieni sydd yn aros gartref.

Gweler www.addysgwyr.cymru i gael mwy o wybodaeth.

Os oes gennych chi stori ysbrydoledig am sut y daethoch chi i mewn i ddysgu y credwch y byddai'n werth ei rhannu trwy'r wefan, cysylltwch â ceriwilliams3@gwegogled.cymru

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Rhaglen Gŵyl Hanes Cymru i Blant - Medi/Hydref 2021

Lansiwyd gwefan newydd a rhaglen Gŵyl Hanes Cymru i Blant 2021. Eleni, bydd yr ŵyl yn cynnig amrywiaeth eang o ffilmiau byrion, sgysiau a gweithdai ar-lein newydd sbon dros gyfnod o chwe wythnos yn ystod tymor yr Hydref.

Gallwch bori drwy'r arlwy a chofrestru eich diddordeb ar y wefan - www.gwylhanes.cymru



Y Rhaglen Maethu Lles

Rhaglen yw Maethu Lles sy'n annog gweithwyr proffesiynol i gydweithio, gan ganolbwyntio ar wella deilliannau lles ar gyfer plant a phobl ifanc. Ei nod yw creu iaith gyffredin ar gyfer gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol a mwy o gydnabyddiaeth bod gofaluwr maeth yn rhan allweddol o'r tîm, ochr yn ochr ag athrawon a gweithwyr cymdeithasol. Seilir y rhaglen ar Addysgeg Gymdeithasol, sef ffordd holistaidd o weithio sy'n canolbwyntio ar berthynas.

Rydym yn falch o gynnig 5 dosbarth meistr allweddol, fydd yn cael eu cyflenwi'n rhithiol ledled eich rhanbarth. Nod y dosbarthiadau meistr yw dod â'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â chynorthwyo plant sy'n derbyn gofal ynghyd, ac maent yn creu amgylchedd dysgu cyd-gynhyrchiol, sy'n galluogi'r gweithwyr proffesiynol allweddol hynny i ennill sgiliau a hyder ychwanegol sydd eu hangen i helpu i ysbrydoli plant a phobl ifanc i gyflawni'u potensial.

[Cliciwch yma i weld beth yw prif themâu'r dosbarthiadau meistr.](#)

Dolen i Gofrestru: <https://www.eventbrite.co.uk/e/fostering-wellbeingmasterclasses-north-wales-r4-registration-158579225733>

Fe'i hanelir at: Gofaluwr Maeth, Staff Gofal Cymdeithasol, Addysg ac Iechyd.

Dosbarth Meistr 1	Dosbarth Meistr 2	Dosbarth Meistr 3	Dosbarth Meistr 4	Dosbarth Meistr 5
21/09/2021	29/09/2021	07/10/2021	14/10/2021	22/10/2021
10:00 – 12:30	10:00 – 12:30	10:00 – 12:30	10:00 – 12:30	10:00 – 12:30

Gweithdai Sbarduno

Dyma i chi'r arlwy o weithdai ar-lein ac wyneb-yn-wyneb sydd gan Sbarduno i'w cynnig i ysgolion Gogledd Cymru yn ystod Tymor yr Hydref.

Mae'r [gweithdai ar-lein](#) yn rhoi cyfle i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 2 gael sesiwn awr o hyd er mwyn cyflawni arbrofion syml a hwyliog, gan ddatblygu sgiliau megis cydweithio, gweithio'n annibynnol a datrys problemau a dysgu am Wyddoniaeth syml o ddydd i ddydd.

Y gost ar gyfer sesiwn 1 awr o hyd yw £150. Maent yn addas ar gyfer hyd at 30 o ddisgyblion. Fe'u cynhelir bob dydd Gwener a cheir dewis o 3 amser: 09:30y.b; 11:00y.b neu 01:15y.p. Fe'i cynhelir dros Microsoft Teams neu Google Meet, pa bynnag un yr ydych yn ei ddefnyddio yn yr ysgol.

Darperir rhestr adnoddau ar gyfer pob gweithdy o flaen llaw, a mae'r eitemau a nodir yn hawdd iawn cael gafael arnynt. O ran y Gweithdy Lliwiau byddwn yn anfon y papurau hidlo a'r pipedau i chi yn y post.

Mae'r [gweithdy wyneb-yn-wyneb](#) yn ddiwrnod cyfan, o 09:30-2:30y.p ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, ac yn weithdy hanner diwrnod, 09:30-12:00y.p ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, a hynny ar gyfer uchafswm o 30 disgybl. Y gost ar gyfer y gweithdy wyneb-yn-wyneb yw £400. Bydd costau teithio a llety (pan fo angen) yn cael eu hychwanegu at y costau. Darperir yr adnoddau ar gyfer yr arbrofion gan Sbarduno. Cyfoethogir profiadau'r disgyblion wrth iddynt gael gwisgo cotiau labordy yn ystod y gweithdy.

Os ydych yn dymuno archebu sesiwn ar gyfer eich dosbarth neu ysgol, yr oll sydd angen ei wneud yw anfon neges: claire@sbarduno.com



Cyfle i Gymryd Rhan: Prosiect Tegwch Ysgol Gyfan (Cymru)

Drwy gyfres o sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar-lein ac am ddim i athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn 2021/2022, bydd y prosiect Tegwch Ysgol Gyfan (Cymru) gan y Sefydliad Ffiseg yn helpu athrawon i adnabod y rhwystrau a allai fod yn cyfyngu ar ddyheadau eu disgyblion, a bydd yn dangos sut y gellir mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws yr ysgol gyfan.

Bydd pob sesiwn yn para 90 munud ar ôl yr ysgol a bydd rhywfaint o waith i'w wneud rhwng y sesiynau. Argymhellir bod dau athro'n cymryd rhan o bob ysgol fel bod modd rhannu'r hyn a ddysgir. Bydd y sesiynau'n cael eu cyflwyno yn Saesneg.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yma.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, anfonwch e-bost ataf: anita.shaw@iop.org

IOP Institute of Physics
Cymru | Wales

MA Astudiaethau Addysg (Rhan-Amser) Prifysgol Bangor

Mae ystod eang o fodiwlau ar gael ar gyfer y ffordd hyblyg hon o astudio ar gyfer eich cymhwyster Meistr, gan gynnwys Dwyieithrwydd, Cwnsela, Cymhwysedd Digidol, Dysgu Dysgwyr Dyslecsig, Arweinyddiaeth Addysg, Rheoli Ymddygiad, Theori Dyslecsia a sgiliau Mentora, a astudir dros bum penwythnos yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae sesiwn rhannu gwybodaeth 'Cwrdd â'r Tiwtor' ddydd Sul 19 Medi am 1pm i unrhyw un sydd â diddordeb mewn mynychu'r cwrs neu sydd eisiau gwybod mwy - mae croeso mawr ichi ddod.

Am wybodaeth bellach neu i gofrestru lle yn y sesiwn 'Cwrdd â'r Tiwtor', cysylltwch â chyfarwyddwr y cwrs, Huw Phillips:

h.c.phillips@bangor.ac.uk

Senedd Ieuenctid Cymru

Mae ail ymgyrch etholiadol Senedd Ieuenctid Cymru wedi'i lansio, a gellir cofrestru pleidleiswyr erbyn hyn ar gyfer yr etholiad ym mis Tachwedd. Mae'r dyddiadau allweddol i'w gweld yma.

Dros y misoedd diweddar, mae staff o Dîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd wedi cynnal sesiynau ymgysylltu ar-lein i ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid at ddiben hyrwyddo Etholiad y Senedd, a gynhaliwyd yn diweddar, ynghyd â gwaith y Senedd a Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd y sesiynau hyn yn parhau i gael eu cynnal ar-lein, ond os ydych chi eisiau trafod y posibilrwydd o gynnal sesiynau wyneb yn wyneb, byddem yn hapus i drafod hynny gyda chi. Ffoniwch 0300 200 6565, neu anfonwch e-bost i contact@senedd.cymru os oes gennych unrhyw ymholiad ynghylch cadw lle.

I gael cymorth neu ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost i helo@seneddieuenctid.cymru, neu ewch i wefan y Senedd Ieuenctid <https://seneddieuenctid.senedd.cymru/>.

post@gwegogledd.cymru

